WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Mark James CBE
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 593A2012 |
| **Dyddiad** | 17 Rhagfyr 2012 |
| **Tudalennau** | **1** o **4** |

Annwyl Mark

# Llythyr Asesiad Gwella

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r casgliadau allweddol sy'n codi o'm gwaith mewn perthynas â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a yw Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Yn dilyn fy llythyr Asesiad Gwella ar 28 Medi 2012 mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas ag adrodd ar welliant;
- fy marn, a barn rheoleiddwyr perthnasol, ar i ba raddau y gellir dibynnu ar hunanwerthusiad y Cyngor; a
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion.

Byddaf hefyd yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi dulliau rheoli perfformiad ac adrodd y Cyngor dros y misoedd nesaf.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Gwella sy'n disgrifio cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella yn y flwyddyn a ddaw erbyn 31 Hydref fel rhan annatod o'i adroddiad blynyddol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y Cynllun Gwella wedi'i gyhoeddi yn hwyrach yn y flwyddyn nag arfer ond roedd wedi penderfynu gwneud hyn er mwyn cynnwys y weinyddiaeth newydd yn y broses o bennu'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Gan fod yr adroddiad yn adroddiad cyfunol, mae'r adrannau ar gynllunio yn fyr, ond mae rhagor o fanylion yn yr atodiad technegol, cynhwysfawr.

Mae adrannau'r Cynllun Gwella'n glir a hawdd i'w dilyn, ychydig o dermau technegol a ddefnyddir ac mae'n hygyrch a hawdd i'w ddarllen ar y cyfan. Mae'r Cyngor wedi datblygu ei flaenoriaethau o ran yr amcanion gwella allweddol sy'n flaenoriaeth (KIOPs) ymhellach gan fireinio eu cwmpas i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed eisoes. Mae gan y Cyngor chwech KIOP o hyd, ar ôl uno dau flaenorol, ac mae wedi creu un ychwanegol i ganolbwyntio ar wneud defnydd gwell o adnoddau a chreu cyngor gwell drwy ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian a chyfeirio adnoddau i wasanaethau rheng flaen sy'n brif flaenoriaeth. Mae'r amcan hwn yn hollol briodol o ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Cyflwynir pob KIOP yn gyson, o fewn pob thema Strategaeth Gymunedol, gan ddangos yr ystod ehangach o weithgarwch y mae'r Cyngor yn cyfrannu ato.

Mae'n hawdd dod o hyd i'r cynllun ar wefan y Cyngor, ac mae copi Cymraeg a Saesneg ohono i'w gael, sy'n bodloni gofynion Cynllun Iaith y Cyngor.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Trwy gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol erbyn y dyddiad cau ar 31 Hydref 2012, mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol a amlinellwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Mesur Llywodraeth Leol 2009, o dan Adran 15 (7).

Mae Adroddiad Blynyddol y Cyngor yn darparu hunanasesiad clir a chynhwysfawr o gynnydd mewn perthynas â'r Strategaeth Gymunedol Integredig, nid Amcanion Gwella'r Cyngor yn unig. Mae'r adroddiad yn cynnwys datganiad cryno am ddyletswyddau cyffredinol y Cyngor a chyd-destun y sefyllfa mae'r Cyngor yn ceisio ei gwella.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru mae'r cyhoeddiad yn adrodd ar berfformiad fel perfformiad a fesurwyd gan yr holl ddangosyddion perfformiad statudol, waeth a ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag amcanion gwella ai peidio. Mae'r cyhoeddiad yn cynnwys hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol hon a blynyddoedd ariannol a fu, ac o gymharu ag awdurdodau gwella eraill yng Nghymru.

Mae'r Cyngor yn crynhoi ei weithgarwch ac mae'r cyhoeddiad yn cynnwys manylion am sut mae'r Cyngor wedi defnyddio'i bwerau cydweithio yn ystod y flwyddyn adrodd ac yn cynnwys manylion yn nodi a gyflawnodd y gweithgarwch ar y cyd ei ganlyniad bwriedig ai peidio.

Mae'r Cyngor yn crynhoi canlyniadau'n glir ac yn cynnwys digon o dystiolaeth i ddangos a yw wedi llwyddo i sicrhau gwelliannau ac yn cynnal trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r Cyngor wedi llunio crynodeb clir a chryno sy'n cysylltu'n glir â'r prif adroddiad. Mae'r Cyngor wedi bod yn ofalus eleni i ddefnyddio'r un geiriau a lliwiau i ddisgrifio'r KIOPs â'r hyn a ddefnyddir yn y brif ddogfen ac wedi gwella cysondeb y testun sy'n golygu bod y ddogfen gyfan yn gweithio'n well gyda'i gilydd.

Mae'n hawdd dod o hyd i'r cynllun, ei grynodeb a'r atodiad technegol ar wefan y Cyngor ac maent ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n bodloni gofynion Cynllun Iaith y Cyngor.

## Mae hunanwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad yn gynhwysfawr ac, er ei fod yn gadarnhaol, mae'n asesiad teg a chytbwys ar y cyfan o'r graddau mae'n bodloni ei amcanion gwella ac effaith ei gamau gwella ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau

### Mae adroddiad y Cyngor yn gadarnhaol ar y cyfan er bod manylion llawn achosion lle nad yw wedi cyflawni ei dargedau na cherrig milltir wedi'u nodi yn yr atodiad technegol cynhwysfawr

Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn gadarnhaol ar y cyfan, er ei fod yn cyfeirio at feysydd lle nad yw'r Cyngor wedi cyflawni ei dargedau na'i gerrig milltir. Gan fod rhaid i'r adroddiad fod yn fyr, ceir mwy o fanylion yn yr atodiad technegol cynhwysfawr.

Mae rhagor o fanylion yn yr atodiad sy'n rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i'r darllenydd am y graddau mae'r Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Gwella, ac a oes angen cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â thangyflawni. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi'r darllennydd i ddod i'w gasgliad ei hun ynglŷn â llwyddiant ochr yn ochr â datganiadau'r Cyngor.

Mae gwaith partneriaeth a chydweithio wedi'i gynnwys mewn modd effeithiol a chynhwysol yn llawn yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae'r adroddiad yn mynegi'n glir ymrwymiad cryf y Cyngor i ymgysylltu ag eraill wrth gyflawni nodau cyffredin yn y Strategaeth Gymunedol Integredig.

**Mae'r Cyngor yn defnyddio astudiaethau achos yn gyson ac effeithiol i helpu i ddangos canlyniadau ei weithgareddau gwella i ddinasyddion**

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud ymdrech wirioneddol i asesu canlyniadau i ddinasyddion. Mae defnyddio astudiaethau achos yn personoleiddio ac yn dangos y canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer pobl benodol. Mae'r adran o'r adroddiad sy'n dadansoddi 'a yw rhywun ar ei ennill' yn cael ei chefnogi gan gamau gweithredu penodol sy'n dangos ymhellach y cynnydd neu'r diffyg cynnydd a wnaed gan y Cyngor. Mae cynnydd cadarnhaol yn cael ei farcio gyda thic, gyda chroes yn cael ei rhoi mewn achosion o fethu â chyflawni targed neu garreg filltir.

**Mae gan y Cyngor drefniadau ystyrlon a chadarn ar gyfer cynllunio a monitro gwelliant**

Mae'r Cyngor wedi datblygu model ar gyfer cynllunio a monitro gwelliant sydd wedi'i gynnwys yn dda ledled y sefydliad. Mae model 'cacen briodas' bum haen y Cyngor yn seiliedig ar ddull cynllunio-gwneud-adolygu sy'n dangos gwahanol lefelau cynllunio a monitro, pob un yn defnyddio gwybodaeth o ffynonellau amrywiol. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys dinasyddion a rheoleiddwyr yn ogystal â'r amrywiaeth arferol o wybodaeth am berfformiad sy'n deillio o'r gwasanaethau eu hunain.

Mae'r Cyngor yn cyflwyno adroddiad ar berfformiad i'r pwyllgorau craffu bob chwe mis. Cyflwynir ystadegau perfformiad a chrynodeb i'r aelodau. Mae gan y Cyngor system Rheoli Gwybodaeth Perfformiad (PIMS) hefyd sy'n darparu mynediad ar-lein i wybodaeth gyfredol am berfformiad a chynnydd ac mae hefyd yn ffynhonnell ar gyfer yr adroddiadau ystadegol a ddefnyddir ar bob lefel yn y Cyngor.

**Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli perfformiad cadarn ac mae dulliau'r Cyngor o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad yn ddibynadwy ar y cyfan**

Fel y nodwyd yn ein llythyr blaenorol mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer trafod ac adrodd ar wybodaeth am berfformiad. Defnyddir PIMS mewnol y Cyngor yn effeithiol ac fe'i cynlluniwyd i gyflawni amrywiaeth o ganlyniadau ar gyfer gwahanol ddefnyddwyr yn cynnwys Aelodau.

Arweiniodd fy archwiliad cychwynnol o sampl o dri Dangosydd Strategol Cenedlaethol at gywiro un dangosydd ac amodi un arall. Rwyf wedi cynnal profion pellach ar brosesau'r Cyngor gan edrych ar 10 dangosydd arall. Arweiniodd y gwaith hwn at gywiro un dangosydd. Fodd bynnag, yn gyffredinol rwy'n fodlon bod dulliau'r Cyngor o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad yn ddibynadwy ar y cyfan.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Ni chaiff cynigion ar gyfer gwella eu hawgrymu yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Jane Holownia – Cyfarwyddwr Grŵp

Colin Davies – Rheolwr

Jeremy Evans – Arweinydd Archwilio Perfformiad